# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
# Gweddnewid a Lle
# Cyfarwyddiaeth Gweddnewid
## Taliadau Uniongyrchol

Ebrill 2019

**Beth yw Taliadau Uniongyrchol?**

Mae Taliadau Uniongyrchol yn ddull o drefnu eich gwasanaethau gofal eich hun drwy dderbyn taliad rheolaidd  yn hytrach na chael gwasanaethau wedi eu trefnu neu eu darparu gan yr Awdurdod Lleol. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cynnig hyblygrwydd i chi allu cwrdd â'ch anghenion gofal mewn ffyrdd sydd yn fwy cyfleus ar eich cyfer. Gyda Thaliadau Uniongyrchol, chi sy'n dewis pwy sy'n darparu'r gofal er mwyn cwrdd â'ch anghenion a chi sy'n rheoli pryd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu.

Mae'n rhaid i chi gofio mai unig fwriad y Taliadau yma yw eich cynorthwyo i brynu gofal sy'n cwrdd â'r anghenion yr ydych wedi cael eich asesu ar eu cyfer ac nid ydynt yn arian ychwanegol i chi eu gwario ym mha bynnag ffordd y dewiswch. Ni allant, er enghraifft dalu am wasanaethau yr ydych yn eu derbyn gan yr Adran Iechyd neu Dai. Nid yw Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hystyried fel incwm felly ni effeithir eich sefyllfa treth incwm a/neu fudd-daliadau.

Os ydych yn gymwys i dderbyn gwasanaethau, gall Taliad Uniongyrchol eich cynorthwyo i gael rhagor o annibyniaeth drwy roi rheolaeth i chi ar sut y byddwch yn diwallu eich anghenion.

**Pwy all dderbyn Taliadau Uniongyrchol?**

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, mae gan yr Awdurdod Lleol bwerau i ddarparu Taliadau Uniongyrchol:

- i gyflawni'ch anghenion gofal a chymorth os ydych yn oedolyn *
- cyflawni'ch anghenion gofal a chymorth os ydych yn blentyn
- cyflawni'ch anghenion cymorth os ydych yn ofalwr

*os ydych yn oedolyn sydd angen gofal a chymorth ac nad yw'r galluedd gennych ar gyfer bwriadau Deddf Galluedd Meddyliol 2015, gall Taliadau Uniongyrchol gael eu gwneud i 'unigolyn addas' addas sy'n caniatáu hynny a'r unigolyn hwn fydd yn derbyn ac yn rheoli eich Taliadau Uniongyrchol ar eich rhan.

Mae'n rhaid i'r unigolyn addas allu rheoli Taliadau Uniongyrchol, naill ai ar ei ben ei hun neu drwy dderbyn cymorth.

Yn y mwyafrif o achosion, bydd yr unigolyn y byddwch yn ei ddewis yn ffrind neu'n berthynas teuluol sy'n rhan o'ch gofal a'ch cymorth.

**Sut allaf wneud cais am Daliadau Uniongyrchol?**

Os nad ydych ar hyn o bryd yn derbyn gwasanaethau gennym, bydd angen i chi drefnu i asesiad gael ei wneud. Gellir trefnu hyn trwy'r Swyddog sydd ar Ddyletswydd ac mae'r manylion ar ei gyfer i'w gweld ar ddiwedd y Pamffledyn hwn.

Os ydych yn derbyn gwasanaethau'n barod a bod gennych ddiddordeb i newid i Daliadau Uniongyrchol, cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu â'r Swyddog sydd ar Ddyletswydd a fydd yn trefnu cwrdd â chi er mwyn trafod yr hyn sydd angen ei wneud.

**Ar beth all Taliadau Uniongyrchol gael eu gwario?**

Mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu rhoi er mwyn talu am wasanaethau y manylir arnynt yn eich cynllun Gofal a Chymorth a fydd yn cael ei gadarnhau a'i drafod yn ystod eich asesiad. Bydd eich cynllun yn manylu pa wasanaethau y gall eich taliad gael ei ddefnyddio ar eu cyfer. Enghreifftiau o wasanaethau yw gofal personol, gofal gyda'r nos neu weithgareddau yn ystod y dydd. Gall Taliadau Uniongyrchol hefyd gael eu defnyddio i brynu gofal preswyl hir neu fyrdymor. Gall yr Awdurdod Lleol hefyd gytuno i'ch caniatáu i gyfuno cymorth fel bod rhai anghenion yn cael eu diwallu gan yr Awdurdod Lleol ac eraill trwy Daliadau Uniongyrchol.

**Os byddaf yn Derbyn Taliadau Uniongyrchol a fyddaf yn gyflogwr?**

Os bydd y Taliad Uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio i gyflogi asiantaeth gofal, yna'r asiantaeth fydd yn gyfrifol am bob rheol a gweithdrefn gyflogaeth ar gyfer staff sy'n darparu'r gofal. Fodd bynnag, os ydych chi (neu 'unigolyn addas' sy'n gweithredu ar eich rhan) yn cyflogi staff (cynorthwywyr personol) yn uniongyrchol, yna byddwch chi'n cael eich ystyried yn gyflogwr.

**Beth mae bod yn gyflogwr yn ei olygu?**

Os ydych chi (neu 'berson addas' sy'n gweithredu ar eich rhan) yn cyflogi staff yn uniongyrchol, rydych wedi'ch ymrwymo gan bob cyfraith sy'n ymwneud â chyflogaeth. Mae yna gyfrifoldebau sy'n cyd-fynd â bod yn gyflogwr. Dyma rhai enghreifftiau i chi o'r hyn allai fod angen i chi eu gwneud:

• Gwirio canolwyr y darpar gyflogai.

•Gwirio taflenni amser a thalu cyflogau.
• Sicrhau cydymffurfiad â chyfrifoldebau cofrestru awtomatig.
• Canfod ow yw'r darpar gyflogai wedi derbyn gwiriad diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
• Sicrhau fod y cyflogai yn derbyn y gwyliau blynyddol y mae'n gymwys i'w dderbyn o dan 'Rheoliadau Amser Gwaith.'
• Cwblhau gwiriad iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau nad oes peryglon posib yn eich cartref.
• Asesu os allai'r gofal sydd ei angen arnoch, fel codi rhoi'r cyflogai mewn risg.
• Sicrhau fod gan y cyflogai yswiriant addas.
• Sicrhau bod gennych chi/neu'r person anabl a'r darpar gyflogai yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus – weithiau bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn polisi yswiriant cartref llawn.
• Hysbyswch Gyllid y Wlad er mwyn didynnu treth incwm a chyfraniadau yswiriant cenedlaethol.
• Os bydd y cyflogai'n sâl neu'n feichiog, byddwch yn atebol am y taliadau cyffredin y bydd cyflogwyr yn gorfod eu gwneud.
• Bydd rhaid i chi sicrhau fod gan eich Taliad Uniongyrchol elfen ddigonol 'wrth gefn' er mwyn cwrdd â phob un o'ch cyfrifoldebau cyfreithiol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a dylai unigolion sy'n ystyried bod yn gyflogwyr sicrhau eu bod yn derbyn cyngor cyfreithiol am eu holl gyfrifoldebau.

**Oes unrhyw gymorth ar gael?**

Bydd Awdurdod Lleol y Taliad Uniongyrchol yn comisiynu cynllun cymorth sy'n darparu cymorth ar gyfer unigolion sydd am ddefnyddio Taliad Uniongyrchol er mwyn rheoli eu cyfrifoldebau.
Mae gan y Cynllun Cymorth ymgynghorwyr all gwrdd â chi er mwyn trafod Taliadau Uniongyrchol a'ch cynorthwyo i benderfynu os hoffech dderbyn eich gwasanaethau yn y modd hwn. Os dewiswch gael Taliad Uniongyrchol, gallant eich cynorthwyo i gwrdd â'ch cyfrifoldebau fel cyflogwr:

• Gallant gynorthwyo â recriwtio eich staff cymorth (gelwir y rhain yn Gynorthwywyr Personol a/neu C/P;)
• Gallant drefnu i dalu'r C/P ar eich rhan a delio â Threth Incwm a chyfraniadau YC.
• Gallant drefnu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS.)
• Gallant eich helpu â materion sy'n ymwneud ag yswiriant.

• Gallant gynorthwyo a chwrdd ag anghenion cyfraith cyflogaeth. h.y. diogelu lles eich cynorthwywyr personol.
• Gallant eich cynorthwyo i agor cyfrif banc ar wahân ar gyfer eich Taliadau Uniongyrchol.

**A allaf gyflogi perthynas agos fel cynorthwyydd personol?**

Gall yr Awdurdod Lleol awdurdodi Taliadau Uniongyrchol i dalu perthynas sy'n byw ar yr un aelwyd â chi. Fodd bynnag, bydd pob achos yn cael eu hasesu'n unigol gan yr Awdurdod Lleol ac ar ôl ystyried eich safbwyntiau, gall yr Awdurdod Lleol fod yn fodlon mai cyflogi perthynas agos yn yr un aelwyd â chi yw'r ffordd orau i gyflawni'r anghenion yr ydych wedi cael eich asesu ar eu cyfer ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar eich cyfrifoldebau fel cyflogwr.

**A oes rhaid i mi dalu am Daliadau Uniongyrchol?**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweithio oddi fewn i fframwaith o gyfyngiad ariannol ac felly mae'n codi cyfraniad am y gwasanaethau y mae'n ei ddarparu, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol.

Gwahoddir defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaethau cymunedol y codir tâl amdanynt i dderbyn asesiad ariannol unigol neu brawf modd. Cyfeiriwch at 'Talu am Gymorth Cymunedol a Chefnogaeth' a'r Pamffledyn, 'Talu am Ofal Preswyl' am ragor o wybodaeth am y broses asesu ariannol.

**Faint fyddaf yn ei dderbyn?**

Bydd hyn yn ddibynnol ar ba wasanaethau y byddwch eu hangen yn eich Cynllun Gofal a Chymorth. Mae swm yn ôl yr awr y mae'r Awdurdod Lleol yn talu amdano.
• Oriau yn ystod y dydd, Oriau Hamdden, Oriau Dihuno yn ystod y Nos, oriau Gofal Ysbeidiol.
• Bydd Gofal Preswyl yn ddibynnol ar yr angen a'r dewis o gartref *

*Mae uchafswm y mae CBSMT yn ei dalu tuag at ffioedd gofal preswyl. Os bydd y cartref y byddwch yn ei ddewis yn codi mwy bydd angen i drydydd parti dalu'r gwahaniaeth. Gallai hwn fod yn aelod o'r teulu ac mewn rhai amgylchiadau, gallech fod yn talu amdano eich hun.

**Sut fydd Taliadau Uniongyrchol yn cael eu talu?**

Bydd angen i chi agor cyfrif banc ar wahân er mwyn sicrhau ei fod yn glir fod yr arian yr ydych yn ei dderbyn yn parhau i gael ei wario ar gyfer yr hyn yr ydych wedi cael eich asesu ar eu cyfer. Unwaith y byddwch wedi cadarnhau'r manylion banc newydd ac wedi dychwelyd yr holl waith papur perthnasol, gall y broses ddechrau.

Bydd dyddiad dechrau'r gwasanaeth yn cael ei gadarnhau a'i drosglwyddo i'r Tîm Asesiad Ariannol a Thaliadau a fydd yn ysgrifennu atoch. Byddant yn eich cynghori o ddyddiad y taliad cyntaf, y cyfnod ac unrhyw symiau ychwanegol a fydd yn cael eu cynnwys. Bydd amserlen yn cael ei gynnwys yn manylu ar ddyddiadau'r dyfodol a symiau unrhyw Daliadau yn y dyfodol.

**A oes angen i mi gadw cofnodion?**

Os penderfynwch ddechrau Taliadau Uniongyrchol, bydd angen i chi arwyddo contract â'r Awdurdod Lleol a fydd yn rhestri'ch cyfrifoldebau tra y byddwch yn derbyn y Taliad. Bydd y contract, ynghyd ag adolygiad ariannol rheolaidd o'ch cyfrifon yn gymorth i sicrhau eich bod yn rheoli'ch cyfrif mewn modd addas, yn sicrhau fod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n gywir a'ch bod yn gweithredu Taliadau Uniongyrchol yn unol â'ch Cynllun Gofal a Chymorth. Bydd angen i chi gadw'r wybodaeth ganlynol ar ffeil:

- Cytundeb Taliad Uniongyrchol rhyngoch chi â CBSMT.
- Contract cyflogaeth rhyngoch chi â'ch cyflogai/cyflogeion.
- Cyllideb graddfa gyflog yn ôl yr awr.
- Pob Datganiad Banc.
- Adroddiadau talu/crynodebau gan Gyllid y Wlad.
- Copïau o bob slip cyflog.
- Gohebiaeth gan Bersonél (milltiredd, gwyliau, salwch.)
- Pob derbynneb/anfoneb ar gyfer Taliadau ychwanegol a wnaethpwyd.
- Lyfrau Siec a Thalu i Mewn a/neu slipiau talu.
- Tystysgrif yswiriant.

Yn ystod yr adolygiad, bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro gweinyddiaeth y cyfrif a'r gofal sy'n cael ei brynu. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn fodlon nad yw'r Taliad Uniongyrchol wedi cael ei ddefnyddio i sicrhau'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnoch ac nad yw'ch deilliannau personol wedi cael eu cyflawni, byddwn yn mynnu ad-daliad o beth neu'r holl Daliadau Uniongyrchol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Bydd hyn hefyd yn berthnasol os na fyddwch wedi cwrdd ag unrhyw un o'r telerau y mae'r Awdurdod Lleol yn wreiddiol wedi eu hatodi i ddarpariaeth y Taliad Uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd penderfyniadau ynghylch adfer yn cael eu gwneud drwy ystyried pob achos yn unigol ac yn seiliedig ar amgylchiadau personol.

**Beth fydd yn digwydd os bydd fy amgylchiadau'n newid?**

Os byddwch yn teimlo bod eich anghenion wedi newid, cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu'r Swyddog sydd ar Ddyletswydd er mwyn trefnu asesiad.

Os penderfynir fod eich anghenion wedi newid, yna gall eich Taliadau newid er mwyn adlewyrchu hynny.

**Beth os na fyddaf am barhau â Thaliadau Uniongyrchol?**

Os bydd eich amgylchiadau'n newid ac na fyddwch mwyach angen Taliadau Uniongyrchol bydd y cynllun cymorth yn eich cynorthwyo i'w dirwyn i ben.

Os ydych am ganslo eich Taliadau Uniongyrchol ond bod angen y gwasanaethau arnoch o hyd, gallwch ddewis cael y gwasanaethau hynny wedi eu darparu gan yr Awdurdod Lleol.

**Sut ydwyf yn gwneud cwyn?**

Os ydych yn anfodlon ag unrhyw elfen o'r Taliadau Uniongyrchol, gallwch ddefnyddio Gweithdrefn Gwynion y Cyngor. Ewch i dudalen "Gwasanaethau Cymdeithasol – Gweithdrefn Ganmol a Chwyno' ar y we am gyngor a gwybodaeth ar www.merthyr.gov.uk

**Am ragor o fanylion am Daliadau Uniongyrchol, cysylltwch â ni ar:**

- Swyddog ar Ddyletswydd 01685 724500

neu

Derbynfa Gwasanaeth i Gwsmeriaid,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Canolfan Ddinesig
Merthyr Tudful,
CF47 8AN
Ffôn: 01685 725000

**Cysylltiadau Defnyddiol:**

- Cynhyrchwyd y pecyn cymorth ar-lein gan Gyngor Gofal Cymru ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer Cyflogwyr a Chynorthwywyr Personol: http://www.paemployertoolkit.wales/
- Carers UK: http://www.carersuk.org
- Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol: https://www.moneyadviceservice.org.uk/
- Age Concern: http://www.ageuk.org.uk

Gellir gwneud cais i dderbyn y wybodaeth hon drwy unrhyw ddull neu fformat arall.